# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Cae Crwn**

**Cartref Gofal Plas Cae Crwn**
**Park Street**
**Y Drenewydd**
**SY16 1EW**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/06/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Plas Cae Crwn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Shaw healthcare (Cambria) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth hwn gael ei arolygu ers ei gofrestru gan y darparwr newydd. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael yng nghartref gofal Plas Cae Crwn, ac yn canmol y staff sy'n rhoi cymorth iddynt.  Cânt eu trin â pharch gan y staff sy'n dangos ymrwymiad i wella bywydau'r bobl. Mae gweithgareddau wedi'u teilwra i hoffterau a dymuniadau'r bobl gan helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae gan y bobl fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol a chymorth yn ôl yr angen. Mae angen gwella cynlluniau personol ac asesiadau risg er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth gywir i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir i'r bobl. Mae angen gwneud gwelliannau i weithdrefnau cyfathrebu ac adrodd er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae rhaglen ailaddurno ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn addas i'r bobl fyw ynddo.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rôl y maent yn ei chyflawni yn y gwasanaeth. Mae angen gwella amlder cyfarfodydd un-i-un rhwng y staff a'u rheolwr llinell. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r tîm rheoli wedi ymrwymo i wneud gwelliannau er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn ymweld yn rheolaidd.

## Llesiant

Caiff y bobl gyfleoedd i wneud penderfyniadau ac i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd. Gallant ddewis ble maent am dreulio eu diwrnod, beth maent am ei fwyta a'i yfed a pha weithgareddau, os o gwbl, y maent am gymryd rhan ynddynt. Ceisir barn y bobl am y gwasanaeth drwy gyfarfodydd preswylwyr, trafodaethau gyda'r staff ac arolygon a gynhelir gan y darparwr. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gefnogi'r bobl sydd am gael eu gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r arwyddion yn yr ardaloedd cymunedol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae rhai dogfennau allweddol gan gynnwys y datganiad o ddiben ar gael yn Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n siarad Cymraeg, sy'n byw yn y gwasanaeth, yn mwynhau eu helpu i wella eu sgiliau Cymraeg.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli anghenion eu lles corfforol a meddyliol. Yn ddieithriad, mae'r staff yn dangos ymrwymiad i wneud y bobl mor gyfforddus â phosibl. Caiff y bobl eu trin â pharch a charedigrwydd. Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r staff yn cymryd amser i ofyn i'r bobl beth sydd o ddiddordeb iddynt a beth maent am ei wneud. Mae gweithgareddau grŵp yn cynnwys gweu a sgwrsio, noson tafarn a bingo. Mae taith bws i lan y môr wedi'i threfnu gan fod rhywun wedi gofyn am hyn. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae angen gwneud gwelliannau i ddogfennaeth gofal i wneud yn siŵr bod gan y staff y wybodaeth gywir i gefnogi'r bobl yn y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Dylid rhoi'r cyfle i'r bobl adolygu eu canlyniadau personol yn rheolaidd mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a gânt i weld a ydynt am wneud unrhyw newidiadau.

Mae angen gwella'r systemau sydd ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Dim ond personél awdurdodedig a all gael mynediad i'r gwasanaeth. Mae angen gwella asesiadau risg, cyfathrebu o fewn y tîm staff ac adrodd am ddigwyddiadau. Mae hyn er mwyn i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i'r staff ac asiantaethau allanol mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod y bobl mor ddiogel ag y gallant fod.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r llety ar un lefel fel y gall y bobl symud yn rhydd o gwmpas y cartref. Mae gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud er budd y bobl. Mae systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff caredig ac amyneddgar. Roedd y bobl yn edrych fel petaent wedi ymlacio yn eu cwmni. Mae sylwadau gan y bobl yn cynnwys, "*staff are lovely, very helpful*"', a "*staff are helpful, very good food just like I have at home*." Mae'r profiad amser bwyd yn dda gyda'r staff ar gael i roi cymorth i'r bobl pan fydd ei angen arnynt. Mae'r staff yn siarad â'r bobl am eu diddordebau a beth yr hoffent ei wneud er mwyn i weithgareddau gael eu teilwra i'r hyn y mae'r bobl yn ei fwynhau.

Mae'r bobl, a/neu eu teulu neu gynrychiolydd yn cymryd rhan mewn asesiadau cychwynnol o'u hanghenion i sicrhau bod gan y staff wybodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system cynllunio gofal electronig. Mae'r cofnodion a welwyd yn anghyson ac yn ddryslyd i'w dilyn. Er bod gwybodaeth am hanes bywyd y bobl yn fanwl, nid yw cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn gywir nac yn glir i'r staff eu dilyn. Ni allem weld tystiolaeth bod y bobl yn ymwneud ag adolygu eu canlyniadau personol. Mae'r staff yn dweud wrthym eu bod yn cael trafferth cynnal adolygiadau o'r dogfennau gofal am nad oes ganddynt amser. Mae'r rheolwyr yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach i wneud yn siŵr bod y staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r system a bod ganddynt y wybodaeth gywir i gefnogi'r bobl yn ddiogel. Mae hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol ac emosiynol. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol. Mae systemau ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Mae polisi ar waith i arwain ymarfer. Mae'r staff yn cael hyfforddiant meddyginiaeth, asesir eu cymhwysedd, a gwelsom dystiolaeth o arfer adfyfyriol mewn trafodaethau un-i-un lle nodwyd problemau.

Mae angen gwella prosesau i ddiogelu'r bobl. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym am y broses i'w dilyn os byddant yn amau bod lles rhywun yn cael ei beryglu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i arwain arfer ac mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, mae gwybodaeth mewn asesiadau risg yn gyfyngedig ac nid yw bob amser yn dangos bod mesurau yn eu lle i'r staff reoli risg a nodwyd. Nid yw trosglwyddiadau ar ôl pob sifft yn cynnwys yr holl staff perthnasol sy'n golygu nad yw gwybodaeth hanfodol am les y bobl yn cael ei rhannu. Mae system cofnodi digwyddiadau newydd yn ei lle sy'n golygu y bydd yr uwch reolwyr yn derbyn pob cofnod o ddigwyddiad ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol yn ddi-oed. Fodd bynnag, mae'r rheolwr a'r staff yn dweud wrthym nad yw digwyddiadau/diogelu bob amser yn cael eu nodi a'u cofnodi mewn modd amserol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu hannibyniaeth. Mae'r llety ar un lefel sy'n golygu bod y bobl sy'n gallu symud yn rhydd o gwmpas y cartref, yn gwneud hynny. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli gydag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae gan y bobl sydd ei angen offer i'w helpu i symud. Caiff hyn ei wasanaethu'n rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn. Mae'r bobl yn treulio amser yn eu hystafelloedd neu'r ystafell fyw, yn dibynnu ar ble maent fwyaf cyfforddus. Mae rhai o'r arwyddion o gwmpas y cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid oes gan bob ystafell wely enwau ar y drysau, neu rywbeth nodweddiadol i helpu'r bobl, yn enwedig y rhai â dementia, i adnabod eu hystafell wely. Dywedodd y rheolwr fod hwn yn cael ei drafod gyda'r bobl a chynlluniau i gofnodi eu penderfyniad yn eu cynlluniau personol. Mae rhaglen ailaddurno ar waith. Dywedodd y rheolwr wrthym fod dodrefn newydd wedi'u prynu ar gyfer yr ystafelloedd gwely fel rhan o'r rhaglen hon.

Mae'r gerddi yn hygyrch i'r bobl. Mae yna gwrt mewnol gyda blodau y mae'r bobl wedi'u plannu. Mae angen paentio'r dodrefn gardd i'w gwneud yn fwy deniadol i'r bobl eu defnyddio. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd yn dewis dodrefn newydd y maent eu heisiau ar gyfer yr awyr agored. Dywedodd y staff wrthym fod gasebo wedi'i archebu er mwyn i'b bobl allu eistedd yn y cysgod. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardal awyr agored. Dywedwyd wrthym eu bod yn mwynhau bod allan yn yr ardd.

Mae'r cartref yn lân ac yn daclus, mae'r ystafelloedd ymolchi yn lân gyda sebon hylif a thywelion llaw i'w defnyddio. Mae offer diogelu personol ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad. Gwiriwyd ein dull adnabod wrth gyrraedd. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi’r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn dod i mewn ac yn gadael yr adeilad.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n dda. Gwelsom y swyddog cynnal a chadw yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd. Mae yna lyfr y mae'r staff yn ei ddefnyddio i adrodd am unrhyw faterion cynnal a chadw y maent yn eu

gweld fel y gellir mynd i'r afael â nhw. Mae gwiriadau diogelwch tân a gwiriadau o'r offer gan gynnwys teclynnau codi yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gan y bobl wybodaeth am y gwasanaeth a sut mae codi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr a'r staff yn ogystal ag arolygon i gael barn y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i'r gwasanaeth yn disgrifio'r hyn y gall y bobl ei ddisgwyl os byddant yn dewis byw yng nghartref gofal Plas Cae Crwn.

Yn ystod ein hymweliad, roedd digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn dweud wrthym nad oes fawr ddim angen defnyddio'r staff asiantaeth. Mae gweithwyr gofal newydd wedi'u recriwtio sy'n golygu y gellir cyflenwi sifftiau. Mae arferion recriwtio yn sicrhau bod gwiriadau perthnasol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Cânt hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rôl y maent yn ei chyflawni yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym fod cyfleoedd hyfforddi yn dda nawr. Mae system ar-lein newydd a mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu ar eu cais.

Mae angen gwella cymorth y rheolwyr ar gyfer staff. Cynhelir cyfarfodydd tîm er mwyn rhannu gwybodaeth. Nid yw'r cartref yn rhedeg yn llawn, ond nid yw'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un mor aml ag y dylent fod. Dywed staff wrthym fod morâl wedi bod yn isel yn ddiweddar. Fodd bynnag, maent yn dweud ei fod bellach yn dechrau codi. Codwyd pryderon ganddynt gan gynnwys dim cael amser i gwblhau gwaith papur a phryderon am ddiffyg uwch staff wrth gefn yn y cartref yn ystod amser cinio. Codwyd y materion hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr a roddodd sicrwydd y byddant yn cynnwys y staff mewn trafodaethau am y ffordd y gellir datrys hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y tîm rheoli ehangach gan ddweud fod mwy o hyfforddiant wedi helpu i gynyddu eu hyder a'u gwybodaeth. Nid yw pawb yn cael gwerthusiad blynyddol o'u gwaith. Mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y cymorth cywir. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae strwythur rheoli clir ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Dywed y staff wrthym fod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth gyffredinol a bod hyn yn barhaus. Mae'r rheolwyr wedi cydnabod bod archwiliadau o feysydd gan gynnwys cwympiadau y mae angen eu gwella ac maent wedi rhoi systemau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw cynlluniau personol ac asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a chywir am y modd y darperir gofal i'r bobl. | Newydd |
| 16 | Nid yw'r bobl bob amser yn ymwneud ag adolygu eu canlyniadau personol yn rheolaidd | Newydd |
| 26 | Mae angen gwella prosesau sydd ar waith i sicrhau bod y bobl mor ddiogel ag y gallant fod er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a bod eu gwaith yn cael ei arfarnu. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2023